

Undod

Dyrchafaf i Dri:
Y Drindod yn Dduw
Sydd yn Un a Thri
Yn undod ag un nerth.

‘Nid wyf yn frwd iawn dros undeb eglwysig os yw’n golygu unffurfiaeth.’

Raymond Brown

EMYNAU

Y Tri yn Un a’r Un yn Dri yw’r Duw a addolwn ni:

Addolwn Dduw, ein Harglwydd mawr,
mewn parch a chariad yma nawr;
y Tri yn Un a’r Un yn Dri
yw’r Arglwydd a addolwn ni.

Gwyllt y Mynydd (*Caneuon Ffydd*: 14)

Dirgelwch Tri yn Un yw sylfaen yr Eglwys Gristnogol:

Ond yma mae mewn undeb
â Duw, y Tri yn Un,
mewn dirgel, hardd gymundeb
â seintiau’r nef ynglŷn:
O deulu glân a dedwydd!
O Arglwydd, nertha ni
i esgyn gyda’r Iesu
i’th bresenoldeb di.

S. J. Stone *cyf.* J. A. Jackson (*Caneuon Ffydd*: 612)

Ti yw’r winwydden a ninnau yw’r canghennau sy’n tarddu ohonot ti:

O pâr i'th Eglwys, ti'r Winwydden wir,
 darddu ohonot yn ganghennau ir;
 a llifed drwom ni dy rasol nodd
 nes inni ffrwytho'n felys wrth dy fodd.

Morgan D. Jones (*Caneuon Ffydd*: 620)

Crist yw sylfaen y tŷ ar y graig:

Crist yw sylfaen y tŷ,
 Crist yw sylfaen y tŷ,
 Crist yw sylfaen y tŷ ar y graig;
 heddiw geilw blant pob gwlad,
 “Dewch i mewn i dŷ eich Tad,”
 Crist yw sylfaen y tŷ ar y graig.

1 Anad.; 2, 3, 4 Hong Sit *cyf.* Siôn Aled, Arfon Jones,
 Tim Webb (*Caneuon Ffydd*: 625)

Chwiliwn am y cwlwm sy'n ein clymu â'r Tad:

Ni yw teulu'r Duw byw,
 addewid o ddwyfol rin,
 etholedig y Tad,
 hyfryd newydd win.

Bob Gillman *cyf.* Catrin Alun (*Caneuon Ffydd*: 626)

Prydferthwch pennaf yr Eglwys yw presenoldeb y Tri yn Un:

Mor hardd, mor deg, mor hyfryd yw
 Dy babell sanctaidd di, O Dduw!
 Mor loyw y disgleiria hi
 Gan lewyrch dy wynepryd di!

Benjamin Francis (*Eynau'r Llan*: 139)

GWEDDIAU

Yng nghanol yr holl amrywiaethau llawenhawn yn yr undod sy'n bod:

Eto, gwyddom am yr unoliaeth berffaith sydd rhwng pob peth â'i gilydd. Er bod amrywiaeth a gwahaniaethau, llawenhawn yn yr undod, a gadarnheir gan neges y Gair:

‘Gwnaeth ef hefyd o un dyn yr holl genhedloedd,
i breswyllo ar holl wyneb y ddaear.’ Amen.

John Owen

Dyhead Duw yw i ni fod yn un:

Yr ydym yn diolch am undod ein corff, fel y mae pob cymal a chyhyr yn gweithio drwy'i gilydd i lwyddo a chynnal ein bywyd ni. Wrth inni ystyried y modd yr wyt yn diogelu hyn oll, suddwn o dan donnau o ryfeddod a syndod. Diolchwn i ti, O! Dad, am y modd y mae hyn i gyd i fod yn ddarlun i ni o fywyd dy bobl a bywyd dy eglwys. Yr ydym yn darllen dro ar ôl tro yn dy air am dy ddymuniad, yn achos dy bobl, i fod yn un. Clywn eiriau ein Harglwydd yn gweddïo yn yr ardd ar inni fod yn un, i adlewyrchu yr undod sydd ynot ti. Amen.

Meirion Morris

Cyffeswn ein methiant am i ni fethu amlygu'r undod ym mywyd yr eglwys:

Cyffeswn na fu inni lwyddo i amlygu'r unoliaeth hon yn nhrefn allanol yr Eglwys. Ni allwn fod yn gytûn o ran syniadau oherwydd ein rhagfarnau. Ni allwn ddeall ein gilydd oherwydd ein cyndynrwydd. Ni allwn wrando ar ein gilydd oherwydd ein balchder. Ni allwn ddysgu oddi wrth ein gilydd oherwydd ein hunanbwysigrwydd. Amen.

John Owen

Canmolwn ac addolwn y Duw sy'n Dad, yn Fab ac yn Ysbryd Glân:

Canmolwn ac addolwn di, O Dduw, ein Tad.
Ti yw gwneuthurwr pob dim,
a thrwy dy ewyllys
creaist bopeth ac y maent yn dal i fod.

Canmolwn ac addolwn di, O Iesu Grist.
 Ti yw'r Gair a ddaeth yn gnawd,
 a thrwy dy fywyd di
 adnabyddwn y Tad ac ymddiriedwn yn ei gariad.

Canmolwn ac addolwn di, O Ysbryd Glân.
 Ti yw rhodd y Tad i ddynoliaeth,
 a thrwy dy weithgarwch di-baid
 ni wahenir dim oddi wrth Dduw. Amen.

Mil a Mwy o Weddiâu

Yn ystod yr wythnos o weddi am undeb Cristnogol gweddiwn am undod yr Eglwys:

O Arglwydd Iesu Grist, a ddywedaist wrth dy Apostolion, Tangnefedd yr wyf yn ei adael i chwi, fy nhangnefedd yr wyf yn ei roddi i chwi: nac edrych ar ein pechodau, ond ar ffydd dy Eglwys, a dyro iddi'r tangnefedd a'r undod hwnnw sy'n unol â'th ewyllys di; yr hwn sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd. Amen.

Y Llyfr Gweddi Gyffredin

ADNODAU

Y nod yw cyfannu a byw yn gytûn:

Yr wyf yn deisyf arnoch, gyfeillion, yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, ar i chwi oll fod yn gytûn; na foed ymraniadau yn eich plith, ond byddwch wedi eich cyfannu yn yr un meddwl a'r un farn.

1 Corinthiaid 1: 10

Un yng Nghrist ydym oll:

Oherwydd fel y mae'r corff yn un, a chanddo lawer o aelodau, a'r rheini oll, er eu bod yn llawer, yn un corff, fel hyn y mae Crist hefyd.

1 Corinthiaid 12: 12

Dymuniad Iesu oedd i'w ddisgyblion fod yn un ynddo Ef:

Yr wyf wedi gwneud dy enw di yn hysbys iddynt, ac fe wnafe hynny eto, er mwyn i'r cariad â'r hwn yr wyt wedi fy ngharu i fod ynddynt hwy, ac i minnau fod ynddynt hwy.

Ioan 17: 26

Nid rhywbeth i'w gynhyrchu yw'r undod ond rhywbeth i'w gynnal a'i gynyddu'n gyson:

Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth, ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad.

Effesiaid 4: 2

Crist yw'r pen a thrwyddo ef y bydd prifiant y corff:

Ef yw'r pen, ac wrtho ef y mae'r holl gorff yn cael ei ddal wrth ei gilydd a'i gysylltu drwy bob cymal sy'n rhan ohono. Felly, trwy weithgarwch cyfaddas pob un rhan, ceir prifiant yn y corff, ac y mae'n ei adeiladu ei hun mewn cariad.

Effesiaid 4: 15(b)–16

Roedd y disgyblion gyda'i gilydd ar ddydd tywalltiad yr Ysbryd:

Ar ddydd cyflawni cyfnod y Pentecost yr oeddent oll ynghyd yn yr un lle.

Actau 2: 1

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Gwaith yr enwadau crefyddol yng Nghymru heddiw yw dathlu eu hamrywiaethau a dod i ddeall ei gilydd.

Nid moethusrwydd yw closio at ein gilydd fel aelodau o'r gwahanol eglwysi ond anghenraid.

Nid cyfundrefn sydd wedi'i sefydlu'n ddiysgog hyd ddiwedd amser yw'r Eglwys. Pererinion ar daith ydi Cristnogion. Nid pobl lonydd, swrth, sydd eu hangen ar Dduw, ond pobl sydd wastad ar fynd, fel Iesu ei hun. 'Mae ef wedi mynd o'n blaen' oedd neges fawr y Pasg.

Ffaith ganolog yr undod hwn yw 'Un Arglwydd' a dyma graidd undod ysbrydol yr Eglwys. Mae'r Eglwys yn Un am fod ei Harglwydd yn un, ac y mae'r rhai sy'n un ag ef hefyd yn un â'i gilydd.

Gweddiwn am gymorth Duw i ymrwymo o ddifrif i'r dasg o geisio cymod ac undod yn yr eglwys, yn ein cymdogaeth ac ymhlith ein cyd-ddynion.

Y mae Crist a'r Eglwys yn ddau yn yr un cnawd.

Awstin Sant